

Datganoli Darlledu i Gymru

Ymateb Mentrau Iaith Cymru

6/12/2019

Cred **Mentrau Iaith Cymru** yn gryf bod **angen** datganoli darlledu i Gymru, ac y dyliai hyn gynnwys rheoliadau ym ymwneud â theledu, radio, y we a'r wasg brintiedig.

Nid yw'r sefyllfa bresennol sydd ohoni wedi'i chreu ar gyfer Cymru yn benodol, na chwaith gyda chynulleidfa Cymru mewn golwg. Mae'r sefyllfa sydd ohoni yn cynnwys cynulleidfa Lloegr mewn golwg, gan apelio at y gynulleidfa honno, a chan dargedu'r gynulleidfa honno.

Mae *gwleidyddiaeth* yn bwnc amlwg i ddwyn sylw ato fel enghraifft o ddarlledu *bias* tuag at Loegr.

Trafodir pynciau datganoledig o fewn cyd destun a safbwynt Seisnig, heb daflu goleuni bod sefyllfaoedd yng Nghymru yn wahanol i'r rheiny yng ngweddill Prydain.

Mae'r r'un peth yn gymwys am y wasg brintiedig. Safbwynt Llundain a geir ac mae hyn yn creu tloidi gwybodaeth yma yng Nghymru.

Mae angen Datganoli Darlledu er mwyn i ni yma'n Nghymru:

- Sicrhau gwybodaeth gywirach am ein system ddemocrataidd yn ein holl gyfryngau
- Craffu ar ein sefydliadau democrataidd
- Creu mwy o sianeli teledu a gorsafoddd radio Cymraeg a Chymreig
- Creu system mynediad i'r we decach i bawb
- Creu mwy o ddeunydd Cymraeg ar-lein
- Sicrhau bod pobl Cymru yn derbyn gwybodaeth Gymreig, yn hytrach na gwybodaeth anghywir nad yw'n cynrychioli nac yn adlewyrchu cymunedau Cymru

Credwn y byddai datganoli darlledu yn sicrhau **dinasyddion** mwy gwybodus o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas, yn eu hardaloedd, eu cymunedau, a'u cenedl. Bydd hyn yn ei dro yn creu dinasyddion sydd yn cymryd *diddordeb* o'r drefn sydd ohoni a sut allent hwy gymryd rhan fel dinasyddion cydwybodol.

Bydda Datganoli Darlledu yn arwain at wlad decach a chryfach, ac yn cyfrannu'n helaeth tuag at wireddu 7 Nod Deddf Llesiant y Dyfodol, pwy fydda ddim eisiau'r pethau hyn i bobl Cymru?